Datblygwyr Cynllumiau Pwer a Gwres Cymunedol

(Cwmni Gwasanaethau Ynni Cymunedol)

2 Swydd

4 diwrnod yr wythnos, cytundeb 2 flynedd i ddechrau.

Cyflwyniad

Mae Cwmni Bro Ffestiniog yn fenter sydd yn anelu i rwydweithio dros 15 o fentrau cymunedol yn ardal Bro Ffestiniog. Maent wedi bod yn gweithio efo 'Ynni Lleol' (Enegry Local), Ynni Cymunedol Twrog, Y Dref Werdd, Cyngor Gwynedd ac eraill i ymchwilio'r posibilrwydd o sefydlu 'cwmni gwasanaethau ynni cymunedol'. Gwaith y cwmni fydd cyflenwi gwres yn defnyddio adnoddau cynaliadwy lleol, ol-osod tai ac eiddo a gweithio efo cynhyrchwyr trydan lleol
.

Sefydlwyd Ynni Cymunedol Twrog er mwyn datblygu cynlluniau ynni cymunedol yn yr ardal.

Cyngor Gwynedd ydi'r awdurdod lleol ac yn bartner llawn yn y prosiect.

Mae Ynni Lleol yn fenter gymunedol sydd yn trawsnewid y farchnad ynni er mwyn dod a budd i gymunedau lleol a chynhyrchwyr ynni cynaliadwy. Ei gweledigaeth yw cefnogi sefydlu miloedd o 'clybiau ynni lleol' nid er elw. Mae'r clybiau yn galluogi cynhyrchwyr ynni i gyflenwi yn lleol, dod a budd i ddefnyddwyr, cymunedau gan adeiladu systemau ynni mwy effeithiol a lleol.

Mae'r partneriaid wedi dod ynghyd i ddatblygu model busnes newydd er mwyn rheoli a chyd-lynu'r gwahanol wasanaethau ynni. Mae hwn yn brosiect uchelgeisiol ac arloesol i adeiladu system gwresogi leol ynghyd a datblygu cwmni gwasanaeth ynni lleol. Yn yr un gwynt mae hwn yn gyfle i ddatblygu sgiliau a gweithlu lleol.

Gyda chefnogaeth a mentora rydym yn chwilio am 2 person i ddatblygu syniad a sefydlu'r CESCO.

Gellir cael mwy o wybodaeth am y cynllun yma: Pioneering Places | Energy Local

Trosolwg o dasgau:

Tasg 1 Datblygu'r trefniadau cyfreithiol y CESCO a'i gofrestru fel endid

Byddwch yn gweithio efo partneriaid ac arbenigwyr cyfreithiol i gyflawni hyn.

Tasg 2 Datblygu cynllun ariannol a technegol ar gyfer y rhwydwaith ynni.

Byddwch yn gweithio gyda phennaeth datblygu busnes 'Ynni Lleol' er mwyn diwygio'r cynllun busnes, sicrhau cyllid, datblygu strwythurau a sicrhau cynaladwyedd hirdymor y CESCO.

Gyda chefnogaeth gan Ynni Lleol, Cwmni Bro Ffestiniog a phartneriaid eraill byddwch yn datblygu'r cynllun technegol a chynlluniau ol-osod.

Tasg 3 Cytuno cytundebau efo cyflenwyr a chwsmeriaid.

Wedi cefnogi gan Gwmni Bro Ffestiniog ac Ynni lleol byddwch yn datblygu cytundebau efo cyflenwyr a chwsmeriaid - preswylwyr preifat, tai cymdeithasol, landlordiaid a busnesau lleol.

Tasg 4 Ymgysylltu a sicrhau perchnogaeth a chyfranogiad y gymuned leol.

Byddwch yn gweithio efo'r Dref Werdd, Ynni Cymunedol Twrog, GwyrddNI, Cyngor Gwynedd, Cymdeithasau Tai a mwy i sicrhau cyfranogiad y gymuned leol. Mae sicrhau perchnogaeth gymunedol a dealltwriaeth o'r CESCO yn ganolog i unrhyw lwyddiant a chynaladwyedd y cynllun. Byddwch yn gweithio efo partneriaid eraill ac ar draws y gymuned hefyd wrth ddatblygu'r cynllun a chyfer ol-osod tai a chynlluniau ynni cymunedol eraill posib.

Gwybodaeth Ychwanegol:

Wedi lleoli yng Ngwynedd.

Byddwch yn barod i:

- Dysgu a datblygu sgiliau newydd, yn enwedig datblygu busnes a rheolaeth.
- Cyd-weithio a nifer o bartneriaid ar draws sectorau.
- Gweithio o fewn ti ac ar ben eich hun.
- Diddordeb mewn ynni adnewyddol, datgarboneiddio a mynd i'r afael a thlodi tanwydd
- Yn angerddol am ddatblygu ac adfywio economaidd a chymdeithasol wedi arwain gan y gymuned.

Sgiliau ac arbenigedd

Rydym yn disgwyl i un o'r swyddi bod a gwybodaeth dechnegol (yn ddelfrydol arbenigedd trydanol neu fecanyddol)

Byddwn yn disgwyl I un o'r swyddi eraill bod a gwybodaeth o ddatblygu busnes a phrofiad o ddadansoddi llif a rhagolygon ariannol.

Yn siarad Cymraeg, yn dysgu Cymraeg neu a pharodrwydd gwirioneddol i ddysg

Cyflog

£~35k FTE pro-rata gyd buddion yn ddibynnol a phrofiad. Swyddi 4 diwrnod y wythnos gwaith.

Cyswllt

Os oes diddordeb ganndoch, anfonwch lythyr a CV at Mary neu Ceri gyda gwybodaeth berthnasol am eich sgiliau ac arbenigedd:

Ceri Cunnington ceri.c@cwmnibro.cymru

Mary Gillie mary@energylocal.co.uk

Ose sganddoch unrhyw gwestiynnau neu angen sgwrs anffurfiol yn cysylltwch a Ceri Cunnington ar 07799353588 neu Mary Gillie ar 07757 900408.

Dyddiad Cau Rhagfyr 12ed 2024

Dyddiad cychwyn Ionawr 6ed 2025

Mwy o wybodaeth

Pioneering Places | Energy Local

https://www.dropbox.com/scl/fo/nylaylbzlnsxzrg05zgll/AM3LlSrED1DOtkmlfHpV znc?rlkey=zfdn60savtmn8mv27w70ubnlk&st=dtqeok2i&dl=0

Funded through the Energy Industry Voluntary Redress Scheme